COFRESTRU AM DOCYN DARLLENWR

Bydd angen tocyn Archifau Cymru ar yr archifau cyfrannog dim ond os ydych yn dymuno edrych ar y **dogfennau gwreiddiol**. Does dim angen tocyn darllenwr arnoch i gael mynediad at lyfrau cyfeirio nac adnoddau ar-lein neu ficroffurf yn yr archifau. I gael gafael ar docyn darllenwr, rhaid i chi ddod â **dwy** ddogfen gyda chi – un o restr A i brofi pwy ydych ac un o restr B i brofi'ch cyfeiriad.

A. Prawf adnabod (rhaid cynnwys llofnod dilys):

- Pasbort
- Trwydded yrru
- Cerdyn banc
- Cerdyn credyd
- Cerdyn adnabod staff llywodraeth/cyngor lleol
- Cerdyn adnabod cenedlaethol y DU neu Undeb Ewropeaidd arall
- Cerdyn gwarant yr heddlu/Tollau/Swyddfa Gartref
- Cerdyn adnabod Lluoedd EM
- Trwydded Meistr Môr/Awyr
- Tocyn NUJ

B. Prawf cyfeiriad (ni dderbynnir deunydd wedi'i argraffu o'r we):

- Trwydded yrru gyda chyfeiriad
- Trwydded deledu
- Bil cyfleustodau (wedi'i gyflwyno yn y tri mis diwethaf)
- Cyfriflen banc/cymdeithas adeiladu (wedi'i gyflwyno yn y tri mis diwethaf)
- Cyfriflen cerdyn credyd (wedi'i gyflwyno yn y tri mis diwethaf)
- Bil Treth y Cyngor/llyfr rhent y Cyngor
- Cyfriflen Refeniw a Thollau EM
- Pasborts gyda chyfeiriad (lle mae'r cyfeiriad wedi cael ei nodi'n swyddogol gan yr awdurdod cyflwyno)
- Cerdyn adnabod cenedlaethol y DU neu Undeb Ewropeaidd arall gyda chyfeiriad
- Trwydded y Swyddfa Gartref i aros
- Tystysgrif prifysgol ar gyfer neuadd breswyl (wedi'i stampio a'i llofnodi gan y sefydliad)
- Trwydded Drylliau y DU
- Polisi yswiriant cartref
- Cerdyn llun myfyriwr rhyngwladol

Sylwer:

1. ni all biliau cyfleustodau, cyfriflenni banc/cymdeithas adeiladu, datganiadau cardiau credyd a datganiadau Refeniw a Thollau fod yn hŷn na thri mis i fod yn brawf cyfeiriad derbyniol.
2. gellir defnyddio dogfennau fel trwydded yrru sy'n ymddangos ar restrau A a B *naill ai* fel prawf cyfeiriad *neu* fel prawf adnabod, ond ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer y ddau.
3. derbynnir tocyn darllenwr wedi'i lofnodi ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yr Archifau Cenedlaethol, y Llyfrgell Brydeinig neu Archifau Metropolitan Llundain yn lle'r eitemau ar restr A. Bydd angen i chi ddarparu prawf cyfeiriad, fodd bynnag.

Os nad ydych yn gallu dod ag unrhyw un o'r eitemau hyn, neu os nad oes cyfeiriad sefydlog gennych, siaradwch ag aelod o staff y Gwasanaeth Archifau, a fydd yn eich helpu i ddod o hyd i ffordd o ddefnyddio ein gwasanaeth. Fodd bynnag, ni allwn gyflwyno tocyn heb ddull adnabod digonol - yn anffodus, ni ellir gwneud eithriad i'r rheol hon, er mwyn diogelu cywirdeb y cynllun tocynnau darllenwyr.

Prawf i fyfyrwyr

Os ydych yn 14 oed neu'n hŷn ac yn dal i fod yn yr ysgol neu'r coleg, os nad oes modd i chi ddarparu'r dogfennau am docyn o'r rhestrau uchod, gallwch ddod â llythyr ar bapur pennawd wedi'i lofnodi gan eich athro neu diwtor, ynghyd â thystiolaeth o'ch hunaniaeth sy'n cynnwys eich enw a ffotograff portread, megis pasbort, Cerdyn Dinesydd neu gerdyn fyfyriwr. Mae templed ar gael ar gyfer y llythyr angenrheidiol gan eich athro neu eich tiwtor.

Adnewyddu a chardiau coll

Mae tocynnau darllenwyr yn ddilys am bum mlynedd o'r dyddiad cyhoeddi, a gellir eu hadnewyddu gyda phrawf adnabod a chyfeiriad.

Gellir rhoi tocynnau newydd yn lle rhai wedi'u collu, eu niweidio neu eu dwyn gyda phrawf adnabod a chyfeiriad. Fodd bynnag, efallai y bydd y swyddfa gyflwyno yn codi tâl am y tocyn newydd.

Adeg cofrestru tynnir ffotograff hefyd ac fe'i cedwir yn drydanol fel rhan o'r prawf tystiolaeth hunaniaeth. Caiff pob data personol ei drin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

READER'S REGISTRATION FORM
FFURFLEN GOFRESTRU DARLLENWYR

Surname ..... Cyfenw

First name(s) ..... Enw(au) cyntaf

Title (choose one of the following) Teitl (dewiswch un o'r canlynol)

Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐

Dr ☐ Rev/Parch. ☐ Professor/Yr Athro ☐

Other (please specify) ☐ Arall (nodwch) .....

Address ..... Cyfeiriad

.....

.....

Post code ..... Côd post

Tel no ..... Rhif ffôn

E-mail (optional) .....E-bost (opsiynol)

I agree to abide by the searchroom regulations of each of the participating archives which I visit. Rwy'n cytuno i ddilyn rheolau ystafell ymchwilio pob archifdy rwy'n ymweld ag ef.

I have read the Data Protection Act information provided overleaf. Rwyf wedi darllen gwybodaeth y Ddeddf Diogelu Data a ddarperir dros y ddalen.

Signature ..... Llofnod

Date ..... Dyddiad

Do you have any special access requirements which we should be aware of? Os gennych unrhyw ofynion mynediad arbennig y dylen fod yn ymwybodol ohonynt?

.....

Archives Wales would like to contact you occasionally by email with news about archives in Wales You can unsubscribe at any time. Tick this box if you would like to be contacted in this way. ☐

Hoffai Archifau Cymru gysylltu â chi o dro i dro drwy e-bost gyda newyddion am archifau yng Nghymru. Gallwch ganslo eich tanysgrifiad ar unrhyw adeg. Os hoffech i ni gysylltu yn y modd yma, ticiwch y blwch.

Data Protection Notice

We are required to provide you with this information to comply with current Data Protection legislation. It explains how we use your personal information supplied in the reader registration form.

Data Protection Act 1998
The Archifau Cymru-Archives Wales reader's ticket data is held by all archive services participating in the scheme and processed by Swansea University on their behalf. Swansea University and all other parent authorities of participating archive services are registered for compliance under the Data Protection Act 1998.

All personal information supplied by you will be treated in confidence by us and used only in connection with the operation of the Archifau Cymru-Archives Wales reader's ticket scheme. Information will not be disclosed to any other body except where this is necessary to comply with the law or to protect the participating archive services from theft or fraud. A copy of this application form will be retained for five years after the expiry of your membership.

To help us plan for future improvements to our services, we will make use of data from operation of the reader's ticket scheme, in a manner which does not identify individuals, such as in the preparation of statistics on levels of use of archive services across Wales.

Hysbysiad Diogelu Data

Mae'n ofynnol i ni roi'r wybodaeth yma i chi i gydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data gyfredol. Mae'n esbonio sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol a roddwyd yn y ffurflen gofrestru darllenwyr.

Deddf Diogelu Data 1998
Mae data tocyn darllenwyr Archifau Cymru-Archives Wales yn cael ei dal gan bob gwasanaeth archifau sy'n rhan o'r cynllun, a'i phrosesu gan Brifysgol Abertawe ar eu rhan hwy. Mae Prifysgol Abertawe a phob rhiant-awdurdod arall y gwasanaethau archifau sy'n cymryd rhan wedi'u cofrestru i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

Bydd yr holl wybodaeth bersonol a ddarperir gennych yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac ni chaiff ei ddefnyddio ond mewn cysylltiad â gweithredu cynllun tocyn darllenwyr Archifau Cymru-Archives Wales yn unig. Ni fydd gwybodaeth yn cael ei datgelu i unrhyw gorff arall oni bai bod hyn yn angenrheidiol i gydymffurfio â'r gyfraith neu i ddiogelu'r gwasanaethau archif sy'n cymryd rhan rhag lladrad neu dwyll. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei chadw am bum mlynedd wedi dyddiad terfyn eich aelodaeth.

I'n helpu ni i gynllunio gwelliannau i'n gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, byddwn yn defnyddio data o'r cynllun tocyn darllenwyr mewn modd nad yw'n enwi unigolion, megis paratoi ystadegau ar lefelau defnydd gwasanaethau archifau ar draws Cymru.

Office use only **Defnydd swyddfa yn unig**

ID shown / Dogfennau adnabod a ddangoswyd .....

.....

Notes / Nodiadau .....

Date / Dyddiad ..... Ticket no. / Rhif tocyn .....

Expires / Dod i ben ..... Status / Statws: Lost / Ar goll ☐
Withdrawn / Canslwyd ☐